CYMWYSTERAU CYMRU

Cylch Gorchwyl

Bwrdd Cymwysterau Cymru

1. Pwrpas

1.1. Bydd Bwrdd Cymwysterau Cymru yn:

1.1.1. Darparu arweinyddiaeth effeithiol i Cymwysterau Cymru; goruchwylio a chyfrannu at bennu ei blaenoriaethau strategol, gan sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol;

1.1.2. monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn; ac yn

1.1.3. hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

2. Rôl/Cyfrifoldebau

2.1. Yn benodol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

2.1.1. sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn bodlon ei Brif Amcanion;

2.1.2. sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn talu sylw dyledus i'r materion y mae Deddf Cymwysterau Cymru yn eu rhestru;

2.1.3. sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn gweithredu o fewn y fframwaith ariannol ac yn darparu gwerth am arian; bod Cymwysterau Cymru yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig a gytunwyd gyda'r adran noddi, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio cronfeydd cyhoeddus, a'i fod, wrth ddod i benderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a, lle bo hynny'n berthnasol, yn rhoi sicrwydd cadarnhaol i Weinidogion Cymru drwy'r Uned Noddi bod camau adfer priodol wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon;

2.1.4. sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn llawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o gael effaith ar Lywodraeth Cymru a/neu gyflawni prif nodau Cymwysterau Cymru;

2.1.5. dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i helpu'r Bwrdd i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill; a

2.1.6. phenodi ail Brif Weithredwr a swyddogion dilynol i'r sefydliad.

2.2. Bydd y Bwrdd yn atebol am holl weithrediad Cymwysterau Cymru, er y gall ddirprwyo ei gyfrifoldeb am wneud hynny. Bydd hyn yn cael ei nodi yng Nghynllun Dirprwyaeth y Bwrdd.

3. Aelodaeth a Phresenoldeb

3.1. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys rhwng wyth a deg aelod o'r Bwrdd, Cadeirydd, a'r Prif Weithredwr, y mae pob un o delerau eu penodi yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf Cymwysterau Cymru, a chan amodau penodiad cyhoeddus.

3.2. Mae pob aelod yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.

3.3. Pedwar aelod fydd y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, er y gall Bwrdd Cymwysterau Cymru reoleiddio ei drafodion ei hun yn ôl amgylchiadau ac angen.

3.4. Bydd aelodau o Uned Noddi Cymwysterau Cymru, fel cynrychiolwyr Gweinidogion Cymru, yn cael gwahoddiad i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd, i fynychu fel sylwedyddion[1], gan gydnabod y bydd rhai materion i'w trafod lle na fydd efallai'n briodol i staff Llywodraeth Cymru fod yn bresennol. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhannu'r agendâu ar gyfer holl gyfarfodydd y Bwrdd â'r Uned Noddi, a all wneud cais i fynychu cyfarfod perthnasol, neu i adolygu cofnodion unrhyw gyfarfod. Ni fydd gan swyddogion yr Uned Noddi unrhyw swyddogaeth yn y cyfarfodydd hyn heblaw gwerthuso priodoldeb y modd y cynhelir gweithgarwch a gwariant Cymwysterau Cymru.

3.5. Fel yr amlinellwyd yn yr hysbysebion cyhoeddus, y bwriad yw cael Bwrdd sydd, yn gyffredinol, ag ystod briodol o sgiliau a phrofiadau perthnasol yn y meysydd canlynol:

- Cefndir cyfreithiol, profiad a chymwysterau
- Archwilio a/neu reoli risg
- Arbenigedd yn y cyfryngau a chyfathrebu
- Arbenigedd asesu/cymwysterau
- Profiad fel ymarferydd mewn unrhyw faes addysg perthnasol
- Arbenigedd mewn systemau ansawdd
- Arbenigedd cyllid neu gyfrifeg

4. Cefnogaeth

4.1. Cefnogir y Bwrdd gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a fydd yn brif gyswllt i'r pwyllgor â'r sefydliad, yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, yn hwyluso sefydlu'r Bwrdd, ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r Bwrdd (yn enwedig mewn perthynas â safonau llywodraethu ac effeithiolrwydd y Bwrdd) mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol ac arbennig. Efallai y bydd y Bwrdd hefyd am brynu cyngor arbenigol ychwanegol o bryd i'w gilydd. Byddai hyn yn cael ei drefnu drwy swyddogion Cymwysterau Cymru.

5. Modus Operandi

5.1. Dylai Cymwysterau Cymru[2] gadw rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'w Fwrdd benderfynu arnynt yn ogystal â chynllun dirprwyo a gymeradwyir gan y Bwrdd.

5.2. Gall y Bwrdd sefydlu pwyllgorau a dirprwyo ei swyddogaethau i'r pwyllgorau hynny. Bydd y Bwrdd yn rheoleiddio ei weithdrefn ei hun, a gall reoleiddio gweithdrefn unrhyw bwyllgorau a sefydlir ganddo.

5.3. Gall y Bwrdd sefydlu cyd-bwyllgorau gydag unrhyw berson fel y gwêl yn dda, felly, darparu strwythur llywodraethu i Cymwysterau Cymru weithio'n hyblyg gyda phartneriaid ar faterion penodol gyda thrydydd partïon (er enghraifft, corff dyfarnu, corff rheoleiddio arall, neu bartner mewn menter nad yw'n ei reoleiddio, fel ysgol). Bydd cyd-bwyllgorau yn rheoleiddio eu gweithdrefnau eu hunain, a gweithdrefnau unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir ganddynt.

---

[1] Fel yr argymhellwyd gan Drysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet yn 'Corporate governance in central government department: Code of good practice 2011 – Guidance Note', Pennod 5 'Arm's Length Bodies', adran 5.10.

[2] Yn unol â'r canllawiau gan Swyddfa'r Cabinet 'Guidance on Reviews of NDPBs' 2011, Annex B – 'Principles of Good Corporate Governance in Executive NDPBs', tudalen 25 a 'Audit and Risk Assurance Committee Handbook' Trysorlys EF 2013, adran 5.16.

5.4. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd ac o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Bydd ganddo nifer o eitemau sefydlog y bydd yn eu hadolygu a'u trafod yn rheolaidd:

- Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd
- Cynllunio busnes
- Adroddiadau gan bwyllgorau a chan y grwpiau gweithredol fel y trefnwyd.
- Monitro perfformiad ariannol y sefydliad yn erbyn y gyllideb,
- Uchafbwyntiau Risg

Ac ar gylchred flynyddol:

- Perfformiad y bwrdd
- Adroddiad Blynyddol
- Datganiad archwilio a sicrwydd risg

5.5. Bydd y Bwrdd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyflawni ei gyfrifoldebau statudol bob blwyddyn hyd at 31 Awst, y mae'n rhaid iddo hefyd ei gyhoeddi[3]. Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys, fel isafswm, fanylion am:

5.5.1. Sut mae Cymwysterau Cymru wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod (gan gynnwys drwy gyfeirio at ei brif nodau), sy'n cynnwys:

a) manylion casgliadau unrhyw asesiad a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru, yn ystod y cyfnod adrodd, o effaith arfer ei swyddogaethau ar:

- System gymwysterau Cymru,
- Dysgwyr, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

b) manylion ynghylch a yw Cymwysterau Cymru, ac os felly, sut, wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd.

c) manylion unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt, yn ystod y cyfnod adrodd, o ganlyniad i unrhyw ymchwil a gynhaliwyd gan neu ar ran Cymwysterau Cymru.

5.5.2. Gweithgareddau a blaenoriaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf; ac

5.5.3. unrhyw wybodaeth arall y mae Cymwysterau Cymru yn credu ei bod yn briodol.

5.6. Caiff Cymwysterau Cymru, os gwêl yn dda, baratoi a chyhoeddi adroddiadau eraill ar faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Rhaid i Cymwysterau Cymru hefyd baratoi datganiad blynyddol o gyfrifon hyd at 31 Mawrth[4].

5.7. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau o'i bwyllgorau a gan y Prif Weithredwr ar waith y sefydliad. Gall hefyd gomisiynu adroddiadau naill ai o fannau eraill yn y sefydliad, neu ofyn i Cymwysterau Cymru gomisiynu adroddiadau yn allanol.

[3] Deddf Cymwysterau Cymru (2015) Atodlen 1, paragraffau 28 a 29.
[4] Deddf Cymwysterau Cymru (2015), paragraffau 32 - 24

5.8. Gall y Bwrdd ddirprwyo i staff y cyfrifoldeb am weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, yn y pen draw bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am yr holl faterion hynny.

5.9. Bydd cofnodion cyfarfodydd y bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru.

5.10. Bydd Bwrdd Cymwysterau Cymru yn adolygu ei gylch gorchwyl o leiaf bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.

Cymeradwywyd Mawrth 2023